Cynllun Gweithredu Natur Sir y Fflint

Ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Bioamrywiaeth yn Sir y Fflint

2025 - 2030



Dod o hyd i ni ar

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL



Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.

This document is also available in English. See English page on our website.

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Pam mae angen i ni gynllunio ar gyfer natur	4
Natur yn Sir y Fflint	6
Glaswelltir a Thiroedd Comin	8
Coetiroedd a Choed	9
Isadeiledd Gwyrdd Gwledig a Threfol	10
Safleoedd Gwarchodedig	11
Adolygiad o'n Camau Gweithredu Natur	12
Ein Cynllun Gweithredu	14
Themâu	15
Cynnal a Gwella Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn	15
Cynyddu Gwybodaeth a Throsglwyddo Gwybodaeth	16
Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd	16
Uwchsgilio a chapasiti ar gyfer darparu	17
Llywodraethu, Integreiddio ac Adrodd ar Gynnydd	18
Ein Cynllun Gweithredu 2025 - 2030	19
Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd	22
Cyfeiriadau	23
Rhagor o wybodaeth	23

Rhagair

Ers cyhoeddi ein cynllun bioamrywiaeth diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd ystyrlon i sefydlu bioamrywiaeth fel blaenoriaeth ar draws adrannau'r cyngor. Mae ein dull rheoli tir wedi esblygu'n sylweddol: rydym bellach yn rheoli 48 hectar o gynefin blodau gwyllt ac yn ymroddedig i newid ein hymarferion rheoli chwyn i rai cynaliadwy ac integredig.

Mae gennym raglen plannu coed weithredol, ac rydym yn asesu ein hasedau tir ar gyfer cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chefnogi dulliau amsugno carbon. Mae prosiectau cydweithredol ar draws adrannau bellach yn nodwedd allweddol yn ein gwaith, sy'n ein galluogi i ddarparu nifer o fuddion ledled y Sir. Rydym wedi cyflwyno a gwella asedau naturiol mewn ardaloedd trefol trwy gydweithio'n integredig ar draws adrannau, a chefnogi camau gweithredu cymunedol lleol ar gyfer natur. Diolch i gyllid grant bioamrywiaeth parhaus gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi sefydlu tîm bioamrywiaeth pwrpasol i yrru'r gwaith hwn ymlaen.

Rydym yn cydnabod bod angen ffordd newydd o feddwl a gweithio er mwyn creu newid ystyrlon, a hynny o fewn y sefydliad ac ar draws y cymunedau a wasanaethwn. Rydym yn ymroddedig i godi ymwybyddiaeth o'r angen brys i gefnogi natur ac i feithrin dealltwriaeth a rennir o'r buddion a ddaw o amgylchedd naturiol iach.

Rydym yn deall pwysigrwydd camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth: mae gwybod beth yw cyflwr ein coetiroedd, nodi cynefinoedd peillio allweddol, a deall tueddiadau bioamrywiaeth lleol yn ein helpu i dargedu ein hymdrechion yn y mannau mwyaf anghenus.

Mae amgylchedd naturiol sy'n ffynnu yn tanategu cydnerthedd cymunedol, yn cefnogi ffordd o fyw mwy iach ac egnïol, ac yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol; o aer a dŵr glân i briddoedd iach a pheillio. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein hymrwymiad parhaus i warchod a gwella bioamrywiaeth er lles cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

Y Cynghorydd Chris Dolphin

Aelod Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio, Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Cyflwyniad

Natur yw system cynnal bywyd ein planed ac mae'n hanfodol er mwyn i fodau dynol oroesi. Mae ein hamgylchedd naturiol yn darparu ein bwyd, dŵr, aer, deunyddiau adeiladu, meddyginiaethau a thirlun. Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear ac mae colli bioamrywiaeth yn parhau o ganlyniad uniongyrchol i effeithiau dynol, drwy golli a diraddio cynefinoedd , gor-ecsbloetio, llygredd, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr holl fanteision a gaiff eu darparu gan blanhigion, anifeiliaid, micro-organebau a'r mannau lle maent yn byw ac mae'n anelu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru drwy fframwaith ddeddfwriaethol.

Fel awdurdod lleol mae gennym ddyletswydd i weithredu yn gynaliadwy ac arwain drwy esiampl i ddiogelu a hybu ein hamgylchedd naturiol. Mae gan Gyngor Sir y Fflint sawl maes cyfrifoldeb a all effeithio ar yr amgylchedd naturiol, ac mae gennym yr awdurdod a'r ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn dull sy'n sicrhau fod natur yn cael ei ddiogelu a'i adfer. Mae'r dull hwn o weithio yn cyd-fynd â chamau gweithredu effeithiol yn erbyn newid hinsawdd.

Er mwyn ymateb i'r her o ddadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth, mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu nawr ac yn sicrhau ein bod fel awdurdod lleol yn diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Pam mae angen i ni gynllunio ar gyfer natur

Cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu Natur 2025 - 2030 Sir y Fflint mewn ymateb i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau uwch o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd y cynllun newydd yn cwmpasu 2 gyfnod adrodd gyda chynllun gweithredu a ddiwedderir yn flynyddol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled â bod hynny'n cyd-fynd ag arfer eu swyddogaethau yn briodol, ac wrth wneud hynny mae'n rhaid hybu gwytnwch ecosystemau.



Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6, mae'n rhaid i Awdurdod Cyhoeddus, ystyried y canlynol:

- Rhestr Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwysigrwydd mawr i Gymru
- Adroddiad Sefyllfa Natur Cymru a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
- Unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran ohoni lle mae'r awdurdod yn ymarfer ei swyddogaethau, unwaith mae'r rhain wedi eu llunio.

  ac

- Mae'n rhaid iddo baratoi a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Dyletswydd Adran 6 ac adrodd am gynnydd y cynllun bob 3 blynedd.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut, fel sefydliad, yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'n dyletswydd bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae yna gysylltiadau cryf rhwng Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gellir mynd i'r afael â'r holl brif fygythiadau i natur gan gynnwys; newid hinsawdd, gor-ecsbloetiaeth, colli cynefin, llygredd, rheoli tir a rhywogaethau goresgynnol, drwy fyw yn fwy cynaliadwy, ac mae hynny wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 yn ein helpu i wneud y mwyaf o'n cyfraniadau i'r nodau Llesiant a hefyd yn cefnogi darpariaeth cynlluniau a pholisïau allweddol eraill.

Y targed "30 erbyn 30" yw ymrwymiad Cymru i warchod a rheoli o leiaf 30% o'i dir, dŵr croyw, a'i ardaloedd morol yn effeithiol erbyn 2030. Mae'r addewid hwn yn cyd-fynd â Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal, a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol.

Ym mis Awst 2025, bu i Lywodraeth Cymru ffurfioli ei ddull gweithredu mewn fframwaith a gyhoeddwyd i nodi meini prawf clir, er mwyn i ardaloedd allu cyfrif ymlaen at y targed. Mae ardaloedd sy'n cyfrannu yn cynnwys safleoedd dynodedig a ddiogelir yn ogystal â "Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill Ar Sail Ardal" (OECMs), sy'n cydnabod stiwardiaeth y tu allan i ddynodiadau ffurfiol.

Mae ein trydydd cynllun ar gyfer bioamrywiaeth wedi cymryd i ystyriaeth sbardunau newydd gan gynnwys y targed 30 erbyn 30 ar gyfer camau gweithredu bioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang a chenedlaethol. Mae'n debygol y bydd ein polisi a'n cynlluniau cenedlaethol yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r ymchwil diweddaraf dros y blynyddoedd sydd i ddod. Rydym wedi ceisio paratoi ein cynllun cymaint ag sy'n bosibl ar gyfer y dyfodol i fod yn gydnaws â'r meddylfryd diweddaraf ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth.



Mae deddfwriaeth, cynlluniau a pholisïau cysylltiedig cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi eu hamlinellu yn y tabl isod.

Cyflwr Natur yn Sir y Fflint		
Byd-eang / Cenedlaethol	**Rhanbarthol**	**Lleol**
Targedau Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang	Ddatganiadau Ardal	Cynllun Bioamrywiaeth Adran 6
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Cynllun Gweithredu Adfer Natur	Cynllun y Cyngor 2023-2028
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016		Cynllun Lles 2023 - 2028
Cynllun Gweithredu Adfer Natur i Gymru (Adnewyddwyd 2021)		Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-2030
Datganiad Argyfwng Hinsawdd		Cynllun Coed a Choetir Trefol 2018-2033
Cynllun Gweithredu ar Gyfer Peillwyr		
Argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth		
Fframwaith 30 x 30		

Natur yn Sir y Fflint

Mae Sir y Fflint yn sir o gyferbyniadau. Wedi'i lleoli rhwng Sir Dinbych wledig i'r gorllewin ac ardaloedd mwy datblygedig Swydd Gaer a Glannau Mersi i'r dwyrain, mae'r defnydd o dir yn amrywio o ddatblygiad diwydiannol dwys ar hyd aber Afon Dyfrdwy i ardaloedd mwy diarffordd ym Mryniau Clwyd. Mae'r aber, yr arfordir, glaswelltiroedd, coetiroedd ac ucheldiroedd yn bwysig i bawb sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â'r Sir.

Mae Tirwedd Genedlaethol ddynodedig a Pharc Cenedlaethol arfaethedig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i'r gorllewin o Sir y Fflint. Mae coedwigoedd conifferaidd yn amlwg yma ac er y caiff sawl ardal ei rheoli ar gyfer amaethyddiaeth, mae rhan helaeth o'r ardal yn fosaig o rostir, grug ac eithin. Mae ein hunig ardaloedd o dir mawnog yn y sir yn y Dirwedd Genedlaethol ar y ffiniau â Sir Ddinbych. Gall cynefinoedd mawnog chwarae rôl bwysig o ran rheoli dŵr, gan arafu dŵr llifogydd a lleihau risg llifogydd yn naturiol i lawr yr afon. Drwy ryddhau dŵr yn araf yn ystod cyfnodau sych, mae tir mawnog yn helpu i leihau effaith sychder ar gyflenwadau dŵr ac ar lif afonydd a nentydd.

Mae natur yn cael ei golli ar draws Cymru gyfan ac nid yw Sir y Fflint yn eithriad. Dros y degawdau, mae Sir y Fflint wedi trawsnewid yn sylweddol.

Mae'r effeithiau yn amlwg ar boblogaeth y Pathew yma, lle mae cofnodion arolygon cadarnhaol cyfartalog ar draws ein safleoedd wedi gweld gostyngiad o 94%, sy'n dangos gostyngiad mawr yn y boblogaeth. Mamal bach arall yw llygoden bengron y dŵr, a dyma'r mamal sy'n gostwng gyflymaf yn y DU. Yn Sir y Fflint dim ond mewn pocedi penodol o gynefinoedd addas y gellir dod o hyd iddi.



Mae colli cynefinoedd naturiol yn eang oherwydd datblygu, amaeth, tai, isadeiledd, diwydiant ac echdynnu mwynau yn arwyddocaol, ac mae yna fygythiadau newydd gan gynnwys pla ac afiechydon fel Clefyd y Coed Ynn sy'n cael effaith sylweddol ar goed Ynn ar draws y sir.

Er gwaethaf hyn, mae gan Sir y Fflint nifer o leoedd sydd o bwysigrwydd i fywyd gwyllt mewn ardaloedd trefol a gwledig o hyd, a nawr mae mwy o dystiolaeth nag erioed fod y lleoedd naturiol hyn hefyd yn hynod o bwysig i les dynol.

Fe ddangosir dosbarthiad eang cynefinoedd yn Sir y Fflint ar y map isod:

Mathau Eang o Gynefinoedd yn Sir y Fflint wedi'u mapio gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac ar gael i'w gweld trwy Datamap Cymru.


Glaswelltir a Thiroedd Comin

Mae nifer o'r tiroedd comin yn Sir y Fflint yn bwysig i fywyd gwyllt. Fe ffurfiwyd Ardal Cadwraeth Arbennig Comin Helygain (ACA) dros waddodion rhewlifol a chalchfaen 350 miliwn o flynyddoedd oed, gan greu cynefin unigryw a'r ffynhonnell fwyaf o laswelltir metelaidd yng Nghymru. Mae rhywogaethau sy'n anghyffredin yn genedlaethol, fel tywodlys y gwanwyn sy'n oddefgar i blwm, yn doreithiog o ganlyniad i'r hanes hir o gloddio metelau yn yr ardal.

Mae'r tiroedd comin yn yr ardaloedd mwy trefol hefyd yn darparu cynefinoedd amrywiol pwysig. Mae'r rhwydwaith o byllau, gwlypdiroedd ac ardaloedd o brysgwydd ar Dir Comin Isaf, Bwcle yn hynod o bwysig fel safleoedd magu i lyffantod a madfallod, ac maent yn ffurfio rhan o Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle (ACA).

Mae Sir y Fflint yn un o'r siroedd allweddol yng Nghymru ar gyfer y fadfall ddŵr gribog. Maent yn aml yn dewis pyllau ffermydd gwledig, hen chwareli a thir diffaith mewn lleoliadau trefol.

Gallwch weld ein cynefin glaswelltir ar draws Sir y Fflint ac ardal y Bartneriaeth Natur Leol [yma]



Coetiroedd a Choed


Mae coetiroedd yn gorchuddio 8.8% o'r sir, sy'n llawer is na chyfartaledd Cymru, sef 14%. Caiff ei nodweddu gan flociau bach o goetir fferm a rhai ystadau gwledig, yn ogystal â blociau coedwigoedd mwy, fel Nercwys a Moel Famau yn ne'r sir. Mae coetiroedd yn ffurfio elfen bwysig o ran cynefin yn yr ardal wledig ehangach ac o fewn safleoedd gwarchodedig. Er enghraifft, mae ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun sy'n dilyn yr afon Alun o Loggerheads i Rydymwyn wedi ei ddynodi am ei goetir llydanddail ar galchfaen a choetir gwern gwlyb. Mae rhan helaeth o ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle yn goetir sy'n gynefin daearol pwysig i Fadfallod, ac mae Coed Gwepra yng Nghei Connah wedi ei ddynodi gan fod coed derw digoes yn bresennol.

Yn 2018 fe wnaethom lansio ein Cynllun Coed a Choetir Trefol sy'n gosod targed o fod â gorchudd coed dros 18% o dir trefol erbyn 2033, cynnydd o'r 14.5% presennol, y seithfed isaf yng Nghymru. Mae'n gynllun 15 mlynedd sy'n amlinellu ymagwedd integredig o ran plannu ar bob math o dir cyngor.

Bydd plannu coed ac ailddyfiant naturiol (lle bo'n briodol) yn rhan bwysig o greu rhwydweithiau ecolegol gwydn. Mae'n hanfodol fod polisi **"Y goeden iawn yn y lle iawn"** yn cael ei ddilyn wrth gynllunio plannu coed. Bydd hyn yn atal colli unrhyw gynefinoedd pwysig eraill (fel gwlypdir neu laswelltir) a bydd yn sicrhau fod y coed yn darparu'r budd mwyaf posibl i'r dyfodol.



Gallwch weld ein cynefin coetiroedd ar draws Sir y Fflint ac ardal y Bartneriaeth Natur Leol yma



Isadeiledd Gwyrdd Gwledig a Threfol


Mae yna nifer o safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi a rhannau gwasgaredig o gynefinoedd sy'n werthfawr o safbwynt gwarchod natur ac sy'n hanfodol ar gyfer natur. Mae hyn yn ffurfio ein hisadeiledd gwyrdd. Mae'n cynnwys nentydd a phocedi bach o goetiroedd gwlyb, hen wrychoedd, sy'n gweithredu fel coridorau ar gyfer bwyd gwyllt mewn caeau sydd fel arall yn wael o ran rhywogaethau; coetir hynafol sy'n cynnal cannoedd o rywogaethau o glychau'r gog. Gyda'i gilydd, mae'r cynefinoedd hyn yn darparu ar gyfer ein rhywogaethau mwy cyffredin a phrin fel Madfallod y Twyni, llyffantod Cefnfelyn, Ystlumod, Pathewod, Dyfrgwn, Madfallod Dŵr Cribog a miloedd o adar rhydiol ar aber Afon Dyfrdwy.

Gallai'r ardaloedd hyn yn ogystal ag ystadau awdurdodau lleol sy'n cael eu rheoli fel cynefin lled-naturiol, gyfrannu at y targed o 30% erbyn 2030 fel Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill Ar Sail Ardal (OECMs).

Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol o fewn y sir yn ymgorffori 'mannau gwyrdd' anffurfiol sy'n bwysig i fywyd gwyllt a hamdden. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn waddol hen safleoedd diwydiannol neu waith mwynau sydd wedi datblygu fflora naturiol ac sy'n gartref i rywogaethau niferus o drychfilod. Mae Dyffryn Maes Glas, Treffynnon a Pharc Gwepra, Cei Connah yn 'fannau gwyllt' hynod o werthfawr.

Rydym yn gweithio ar draws adrannau yn Sir y Fflint i gynyddu, gwella a rheoli'r isadeiledd gwyrdd trefol trwy gyfundrefnau torri glaswellt newydd, plannu coed ar strydoedd a mannau gwyrdd a phrosiectau gwyrddu trefol eraill.

Gwelir mapiau Isadeiledd Gwyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yma




Safleoedd Gwarchodedig

Mae gan Sir y Fflint nifer uchel o ddynodiadau cadwraeth natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae cynefinoedd morfa heli, twyni tywod a gwastadeddau llaid Aber Afon Dyfrdwy nid yn unig yn bwysig ynddynt eu hunain, ond maent yn gartref i boblogaethau o adar hela ac adar hirgoes sy'n bwysig yn rhyngwladol ac mae wedi ei ddynodi'n rhyngwladol fel Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig a safle gwlyptir RAMSAR o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae safleoedd eraill sydd wedi eu dynodi yn rhyngwladol yn cynnwys ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun, ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle ac ACA Mynydd Helygain. Mae gan y sir gyfanswm o dros 23 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a dros 300 o Safleoedd Bywyd Gwyllt a ddynodwyd yn lleol.

Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd sensitif gan gynnwys cors bori arfordirol ac ar orlifdir (5% o adnodd Cymru), glaswelltir calchaidd iseldir (17% o adnodd Cymru), morfa heli (12% o adnodd Cymru), rhostir, corsleoedd, glaswelltir metelaidd, pyllau a thwyni tywod arfordirol.

Gweler map Cyfoeth Naturiol Cymru o safleoedd dynodedig ar draws Sir y Fflint yma



Adolygiad o'n Camau Gweithredu Natur

"Cynllun Gweithredu Natur Sir y Fflint 2025 - 2030" yw ein trydydd Cynllun Adran 6

Cefnogi Natur yn Sir y Fflint 2016 - 2019 → **Cefnogi Natur yn Sir y Fflint 2020 - 2023** → **Cynllun gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth 2025 - 2030**

Mae Adroddiad Bioamrywiaeth Adran 6 2025 Llywodraeth Cymru yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth ddarparu ein 20 cam gweithredu allweddol ar gyfer natur a nodir mewn 6 amcan.

O'r 20 cam gweithredu:

- **Mae 45% wedi'u categoreiddio fel rhai sydd wedi gwneud "Cynnydd Da" ac**
- **Mae 55% wedi'u categoreiddio fel rhai sydd wedi gwneud "Rhywfaint o gynnydd"**

Mae hyn yn ffafriol wrth gymharu â'r adroddiad diwethaf yn 2022 lle roedd 35% wedi gwneud "Cynnydd Da" a 65% wedi gwneud "Rhywfaint o gynnydd"

Roedd **uchafbwyntiau'r** cynllun diweddaraf yn cynnwys:	**Galluogwyr** allweddol ar gyfer camau gweithredu bioamrywiaeth:	**Effeithiau Negyddol** Nodedig neu Barhaus, ac Unrhyw **Rwystrau i Weithredu**
• Cynnydd yng ngraddfa a chwmpas ein newidiadau o ran rheoli ystadau • Gweithio ar draws adrannau • Integreiddio'n Barhaus â'r Strategaeth Newid Hinsawdd • Cyrraedd Statws Caru Gwenyn	• Staff bioamrywiaeth ychwanegol • Parhad cyllid grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur: • Cefnogaeth uwch reolwyr a Chynghorwyr Sir • Dyletswydd Statudol	• Tuedd i gadw pethau fel y maent a pheidio â gwerthfawrogi asedau naturiol yn iawn • Natur anamlwg a thymor hwy budd bioamrywiaeth • Agweddau'r cyhoedd • Cyllid grant byrdymor • Dyletswydd statudol heb gosbau

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sicrhau parhad y Bartneriaeth Natur Leol (Bionet). Mae Bionet bellach yn arwain datblygiad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, yn gweithredu targedau o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol, blaenoriaethau o'r Datganiadau Ardal ac amcanion lles.

Am adroddiadau manwl pellach gweler Adroddiadau Adran 6 2025 Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2019, 2022 a 2025.









Ein Cynllun Gweithredu

Mae ein cynllun yn uchelgeisiol. Bydd yn cynnwys gweithio ar draws adrannau'r cyngor, cynyddu cwmpas a graddfa newid a fydd yn arwain at nifer o fanteision a hyrwyddo ffyrdd newydd o feddwl a gweithio.

Mae themâu craidd yn y cynllun yn cael eu harwain gan Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae camau gweithredu arfaethedig yn defnyddio fframweithiau cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys y Targedau Bioamrywiaeth Byd-eang, Argymhellion Ymchwil Dwfn Bioamrywiaeth LIC, a'n hymrwymiad cenedlaethol i reoli 30% o'n tir ar gyfer cadwraeth natur erbyn 2030. Mae hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r holl gamau gweithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cael eu hadnabod hefyd fel y **"5 ffordd o weithio"** a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfranogi

Yn aml fe fydd yna ychydig o orgyffwrdd rhwng y camau gweithredu ac amcanion cynlluniau cenedlaethol a lleol amrywiol, ac rydym yn gweithio i sicrhau fod y ffrydiau gwaith hyn yn cyd-fynd â'i gilydd. Caiff ein cynllun gweithredu ei ddiweddaru'n flynyddol dros y cyfnodau adrodd a gwmpesir.

Themâu

Cynnal a Gwella Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn

Mae rhwydweithiau ecolegol gwydn, y cyfeirir atynt yn aml fel rhwydweithiau natur, yn asgwrn cefn i amgylchedd naturiol sy'n ffynnu. Maent yn cynnwys cynefinoedd rhyng-gysylltiedig sy'n caniatáu rhywogaethau i symud, addasu a goroesi yn erbyn pwysau megis newid hinsawdd, darnio cynefinoedd a llygredd.

Yn Sir y Fflint, mae'r rhwydweithiau hyn yn hanfodol er mwyn:

- Cynorthwyo i adfer bioamrywiaeth trwy gysylltu poblogaethau ynysig
- Gwella gwytnwch ecosystemau, gan alluogi natur i wrthsefyll ac adfer ar ôl aflonyddwch
- Darparu gwasanaethau ecosystemau fel dŵr glân, peillio, lliniaru llifogydd a storio carbon
- Cyfrannu at addasu a lliniaru hinsawdd trwy ddatrysiadau ar sail natur

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi'r thema hon fel blaenoriaeth, gan gyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (Targed 3) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth.



Byddwn yn mynd i'r afael â'r thema hon trwy:

- Reoli a gwarchod safleoedd a chynefinoedd Adran 7 ar draws ein hystad i hyrwyddo statws cadwraeth ffafriol gan gynyddu cynefinoedd lled-naturiol ar draws ein hystad
- Cynnal arolygon bioamrywiaeth ar draws safleoedd allweddol sy'n eiddo i Sir y Fflint ac sy'n cael eu rheoli gan Sir y Fflint i helpu i fod yn sail i reolaeth
- Parhau â chamau gweithredu ar gyfer peillwyr gan gynnwys camau gweithredu lleihau plaladdwyr
- Darparu buddion net bioamrywiaeth trwy ddatblygu cynllunio a mewnosod ymarfer ecolegol da yn y cynllun datblygu lleol



Cynyddu Gwybodaeth a Throsglwyddo Gwybodaeth

Mae adfer natur yn effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar weithredu, ond ar ddealltwriaeth hefyd. Mae thema cynyddu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cydnabod bod tystiolaeth gadarn, dysgu ar y cyd, a data hygyrch yn hanfodol i wrthdroi colli bioamrywiaeth ac adeiladu gwydnwch ecolegol.

Yn Sir y Fflint, mae'r thema hon yn cefnogi:

- Gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth
- Monitro a gwerthuso bioamrywiaeth yn well
- Cydweithio ar draws sectorau, galluogi ymarferwyr, ymchwilwyr, a chymunedau i ddysgu oddi wrth ei gilydd

Trwy gryfhau llif gwybodaeth, rydym yn grymuso budd-ddeiliaid i gymryd camau deallus, cydgysylltiedig ac addasol i adfer natur.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r thema hon trwy:

- Sicrhau bod cynlluniau strategol allweddol yn cael eu creu, eu halinio a'u cyflawni
- Mapio cynefinoedd naturiol a lled-naturiol ar draws ein hystad
- Cyfrannu at amcanion a nodir yn y PNLl a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur
- Hwyluso ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu i hyrwyddo adfer natur a rhoi gwybod am gamau gweithredu bioamrywiaeth a llwyddiant



Gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd

Mae adfer natur yn ymrwymiad hirdymor sy'n mynnu buddsoddiad cynaliadwy a strategol. Mae thema gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cydnabod na ellir gwrthdroi colli bioamrywiaeth ac adeiladu ecosystemau gwydn heb adnoddau ariannol digonol, modelau ariannu arloesol, a chydweithio a draws sectorau.

Yn Sir y Fflint, mae'r thema hon yn hanfodol ar gyfer:

- Cynyddu ymdrechion i adfer cynefinoedd a rhywogaethau
- Cynorthwyo i ddarparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn lleol ar gyfer gwydnwch hinsawdd, iechyd a lles
- Datgloi cyd-fuddion ar draws sectorau fel amaethyddiaeth, cynllunio, trafnidiaeth ac iechyd
- Manteisio ar fuddsoddiad cyhoeddus, preifat a chymunedol i greu newid parhaol

Drwy arallgyfeirio a chynyddu ffrydiau ariannu, gallwn sicrhau bod adferiad natur nid yn unig yn uchelgeisiol, ond hefyd yn gyraeddadwy.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r thema hon trwy:

- Darparu prosiectau a ariennir gan grantiau er budd bioamrywiaeth
- Archwilio modelau ariannu cynaliadwy newydd a chynhyrchu incwm
- Adeiladu ar gysylltiadau ar draws adrannau a sectorau i archwilio cyfleoedd ariannu ar y cyd newydd

Uwchsgilio a chapasiti ar gyfer darparu

Mae adfer natur mewn modd ystyrlon yn mynnu mwy nag uchelgais- mae'n mynnu sgiliau, gwybodaeth a chapasiti ar draws pob sector. Mae thema uwchsgilio a'r capasiti ar gyfer cyflawni yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn tynnu sylw at yr angen i adeiladu'r gweithlu, yr arbenigedd a'r parodrwydd sefydliadol i weithredu camau gweithredu bioamrywiaeth yn effeithiol ac ar raddfa fawr.

Yn Sir y Fflint, mae'r thema hon yn hanfodol ar gyfer:

- Sicrhau bod gan awdurdodau lleol, rheolwyr tir, a chymunedau'r offer a'r hyfforddiant i adfer a gwarchod natur
- Cefnogi darpariaeth Rhwydweithiau Natur, Cynlluniau Adfer Natur Lleol a datrysiadau sy'n seiliedig ar natur
- Creu gweithlu gwydn a medrus sy'n gallu ymateb i heriau ecolegol a hinsawdd
- Galluogi cydweithredu ar draws sectorau trwy rannu dealltwriaeth a chapasiti

Trwy fuddsoddi mewn pobl a systemau, gallwn droi polisi yn ymarfer a sicrhau bod adferiad natur yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn effeithiol.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r thema hon trwy:

- Cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth amgylcheddol fewnol
- Uwchsgilio aelodau'r cyhoedd, tirfeddianwyr a rheolwyr i gyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol
- Darparu cyfleoedd addysg amgylcheddol i gysylltu pobl a natur mewn dull gydol oes



Llywodraethu, Integreiddio ac Adrodd ar Gynnydd

Mae adfer natur yn gyfrifoldeb ar y cyd sy'n mynnu llywodraethu cryf, integreiddio ar draws sectorau, ac adrodd tryloyw. Mae thema llywodraethu, integreiddio ac adrodd ar ein cynnydd yn y Cynllun Gweithredu Adnoddau Naturiol yn pwysleisio'r angen i ymgorffori bioamrywiaeth mewn strwythurau gwneud penderfyniadau, sicrhau atebolrwydd, ac olrhain cynnydd tuag at nodau adferiad.



Yn Sir y Fflint, mae'r thema hon yn hanfodol ar gyfer:

- Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried ar draws pob maes polisi, o gynllunio a chludiant i iechyd ac addysg
- Creu fframweithiau llywodraethu clir sy'n cefnogi camau gweithredu cydgysylltiedig ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Darparu tystiolaeth o effaith, galluogi rheoli addasol a gwellhad parhaus
- Cyflawni dyletswyddau statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Trwy integreiddio bioamrywiaeth ac atgyfnerthu llywodraethu, gallwn sicrhau bod adfer natur yn strategol, cynhwysol a mesuradwy.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r thema hon trwy:

- Gweithredu a gwerthuso cyflawniad dyletswydd adran 6 yng Nghyngor Sir y Fflint gan gynnwys cynhyrchu adroddiad bioamrywiaeth blynyddol
- Darparu strwythur llywodraethu clir a phrif ffrydio darpariaeth bioamrywiaeth ar draws adrannau trwy ddigwyddiadau dysgu mewnol i aelodau a staff

Ein Cynllun Gweithredu 2025 - 2030

Thema	Targed	Cyfeirnod Cam Gwei thredu	Camau Gweithredu Cyngor Sir y Fflint	Adnoddau Ariannol	Yn Arwain
Cynnal a Gwella Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn (rhwydweithiau natur)	Gwneud y mwyaf o rôl ein hystad i adfer natur	1.1	Rheoli safleoedd gwarchodedig ar draws ein hystad i hyrwyddo statws cadwraeth ffafriol	£££	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		1.2	Rheoli cynefinoedd Adran 6 ar draws ein hystad i fod mewn cyflwr da	£££	Adran Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		1.3	Cynnal arolygon bioamrywiaeth ar draws safleoedd allweddol sy'n eiddo i Sir y Fflint ac sy'n cael eu rheoli gan Sir y Fflint i helpu i fod yn sail i reolaeth	££	Bioamrywiaeth
	Adfer a chreu cynefin y tu allan i safleoedd gwarchodedig i adeiladu rhwydweithiau a mosaigau natur	1.4	Cynyddu cynefin lled-naturiol ar draws ein hystad ehangach	£	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		1.5	Cydweithio ar draws adrannau a ffiniau i ddatblygu a chyflawni prosiectau drwy CSyFf a'r PNLl er mwyn adfer natur ar raddfa tirwedd a lleol gan ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur.	£	Bioamrywiaeth / PNLl
	Cynnal a gwella'r rhywogaethau pwysicaf er mwyn sicrhau gwytnwch ecosystemau	1.6	Parhau i weithredu ar beillwyr er mwyn cynnal Statws Caru Gwenyn	£	Bioamrywiaeth
	Mynd i'r afael â phwysau uniongyrchol ar Rwydweithiau Ecolegol Gwydn e.e. llygredd, newid hinsawdd a rhywogaethau estron goresgynnol	1.7	Darparu buddion net bioamrywiaeth trwy ddatblygu cynllunio a mewnosod ymarfer ecolegol da yn y CDLl.	£	Rheoli datblygu, Polisi cynllunio ac Ecolegydd
		1.8	Datblygu a darparu cynllun lleihau plaladdwyr a chynlluniau rheoli chwyn integredig	££	Bioamrywiaeth a Gwasanaethau Stryd
		1.9	Ariannu cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r LERC / COFNOD i sgrinio pob cais cynllunio	£	Rheoli Datblygu
		1.10	Gweithio mewn partneriaeth i gyfyngu effaith rhywogaethau estron goresgynnol a phla ac afiechydon ar fioamrywiaeth lleol	££	Flintshire County Council and LNP
	Cynnal a gwella tystiolaeth ofodol ar gyfer dosbarthiad a chyflwr bioamrywiaeth yn Sir y Fflint	1.11	Mapio holl gamau gweithredu bioamrywiaeth Cyngor Sir y Fflint	£	Bioamrywiaeth
		1.12	Cadw golwg ar gynefinoedd ar draws ein hystad	££	Tîm Amgylchedd Naturiol
		1.13	Gweithio gyda'r PNLl i ddatblygu blaenoriaethau gofodol trwy'r CGAN	£	PNLl

Ein Cynllun Gweithredu 2025 - 2030

Thema	Targed	Cyfeirnod Cam Gwei thredu	Camau Gweithredu Cyngor Sir y Fflint	Adnoddau Ariannol	Yn Arwain
Cynyddu Gwybodaeth a Throsgl-wyddo Gwybodaeth	Sefydlu a chynnal yr achos ar gyfer gweithredu a datblygu polisi	2.1	Sicrhau creu a chyflawni cynlluniau strategol allweddol	£	Bioamrywiaeth
		2.2	Alinio ein camau gweithredu hinsawdd a natur	£	Bioamrywia-eth a Hinsawdd
	Olrhain newid a thueddiadau trwy fonitro a dangosyddion	2.3	Mapio cynefinoedd naturiol a lled-naturiol ar draws ein hystad	££	Bioamrywiaeth
		2.4	Cynnal arolwg o rywogaethau peillio ac Adran 7 a'u monitro	£	Bioamrywiaeth
		2.5	Cyfrannu at amcanion a nodwyd yn CGAN y PNLl.	£	Bioamrywiaeth
	Ymgysylltu a grymuso cymunedau: Codi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau, cyfathrebu, ymgyrchoedd a darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad	2.6	Hwyluso digwyddiadau ymgysylltu i hyrwyddo adfer natur	£	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		2.7	Darparu prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion ac archwilio cyd-gynhyrchu cynlluniau natur lleol	£	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		2.8	Cyfathrebu'n rheolaidd am gamau gweithredu bioamrywiaeth a llwyddiant	£	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		2.9	Meithrin cysylltiadau â Chyrff Anllywodraethol a thirfeddianwyr preifat	£	Bioamrywiaeth
		2.10	Cefnogi grwpiau gweithredu lleol sy'n gweithredu er budd bioamrywiaeth	££	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
	Gwella cysylltiad corfforol pobl â natur	2.11	Parhau i gyflawni prosiectau isadeiledd gwyrdd gan weithio ar draws adrannau	£££	Bioamrywiaeth
		2.12	Gwneud gwaith gwella bioamrywiaeth mewn mannau gwyrdd hygyrch	££	Bioamrywiaeth
		2.13	Cyflawni prosiectau plannu coed	££	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		2.14	Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli mewnol ac allanol	£	Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol

Ein Cynllun Gweithredu 2025 - 2030

Thema	Targed	Cyfeirnod Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Cyngor Sir y Fflint	Adnoddau Ariannol	Yn Arwain
Gwireddu budd-soddiad a chyllid newydd	Gwireddu a chynyddu cyllid grant a buddsoddiad preifat i gynnal neu gynyddu capasiti i gyflawni camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth	3.1	Ceisio, datblygu, caffael a chyflawni prosiectau a ariennir gan grantiau er budd bioamrywiaeth	£	Adran Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		3.2	Archwilio modelau ariannu cynaliadwy newydd a chynhyrchu incwm	£	Bioamrywiaeth
		3.3	Symleiddio llwybrau ariannu mewnol a'u heglurhau	£	Adran Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
	Symud cyllid cyhoeddus trawssectoraidd	3.4	Adeiladu ar gysylltiadau ar draws adrannau a sectorau i archwilio cyfleoedd ariannu ar y cyd newydd	£	Bioamrywiaeth / PNLl

Thema	Targed	Cyfeirnod Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Cyngor Sir y Fflint	Adnoddau Ariannol	Yn Arwain
Uwchsgilio a chapasiti ar gyfer darparu	Gwella gallu, hyfforddiant a sgiliau bioamrywiaeth	4.1	Cefnogi twf gwybodaeth ac arbenigedd ecolegol mewnol	££	Adran Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol
		4.2	Uwchsgilio aelodau'r cyhoedd, tirfeddianwyr a rheolwyr i gyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol	£	Bioamrywiaeth
		4.3	Darparu cyfleoedd addysg amgylcheddol i gysylltu pobl a natur mewn dull gydol oes	££	Bioamrywiaeth, Datblygu dysgu

Thema	Targed	Cyfeirnod Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Cyngor Sir y Fflint	Adnoddau Ariannol	Yn Arwain
Llywodraethu, Integreiddio ac Adrodd ar ein Cynnydd	Prif ffrydio bioamrywiaeth ar draws polisi a gwneud penderfyniadau	5.1	Gweithredu a gwerthuso'r ddarpariaeth dyletswydd Adran 6 yng Nghyngor Sir y Fflint	£	Bioamrywiaeth
		5.2	Prif ffrydio darpariaeth bioamrywiaeth ar draws adrannau trwy ddigwyddiadau / adnoddau dysgu mewnol i aelodau a staff	£	Bioamrywiaeth
	Gwella llywodraethu a thryloywder ar gyfer camau gweithredu bioamrywiaeth ledled Cymru	5.3	Darparu strwythur llywodraethu clir sy'n gysylltiedig â dulliau cyflawni corfforaethol	£	Bioamrywiaeth
		5.4	Cynhyrchu adroddiad blynyddol gweithredu bioamrywiaeth	£	Bioamrywiaeth
	Cyfrannu at bolisi a chyflawniad y DU a byd-eang	5.5	Cyfrannu astudiaethau achos i amlygu camau gweithredu bioamrywiaeth ac ymarfer da ar gyfer polisi cenedlaethol	£	Bioamrywiaeth
			Cyfrannu at ymgynghoriadau'r llywodraeth, galwadau am dystiolaeth a monitro rhaglenni	£	Bioamrywiaeth

Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd

Fe fydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei adrodd yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar ôl bob cyfnod o dair blynedd gydag adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n penderfynu hyn.

O ganlyniad i natur drawsbynciol ac integredig y cynllun a'r ffaith y bydd y cynllun yn cyflawni amcanion ar gyfer sawl ardal cyngor, fe fydd y camau gweithredu o dan y cynllun hwn yn cael eu mesur a'u hadrodd drwy nifer o ddulliau ychwanegol.

Bydd adroddiadau gweithredu bioamrywiaeth blynyddol yn cael eu cynhyrchu a fydd yn mesur cynnydd yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn cael eu derbyn gan weithgor Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint. Bydd y cam gweithredu'n cyfrannu at adroddiadau Cynllun y Cyngor bob chwarter ac adolygiad perfformiad blynyddol. Bydd cynnydd y cynllun yn cael ei fonitro hefyd trwy ein Cynllun Gwasanaeth Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol. Ceir adroddiadau bob chwarter ar y camau gweithredu drwy'r prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi darpariaeth Adran 6. Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn rhan o Grŵp Tasg a Gorffen Adran 6 Llywodraeth Cymru ac felly bydd camau gweithredu yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn y cyfarfodydd hyn.

Fe fydd y camau gweithredu yn cael eu mesur drwy'r canlyniadau a gynhyrchir, cynhyrchu dogfennau, mapio asedau amgylcheddol neu fapio newid. Fe fydd dulliau arolwg electronig a phresenoldeb ac adborth o ddigwyddiadau a gweithgareddau hefyd yn cael eu defnyddio pan fo'n briodol.



Cyfeiriadau

- Adroddiad Cyflwr Natur 2019
  nbn.org.uk/stateofnature2019/
- Cynllun y Cyngor, Cyngor Sir y Fflint
  www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Council-Democracy/Council-Plan-and-Well-Being-Objectives/Council-Plan-2023-28.pdf
- Cynllun Lles Sir y Fflint a Wrecsam
  www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Policy-and-Performance/PSB/Flintshire-and-Wrexham-Public-Services-Board-Well-being-Plan-2023-2028.pdf
- Cynllun Coed a Choetir Trefol Cyngor Sir y Fflint
  www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Countryside-and-Coast/Trees.aspx
- Map Isadeiledd Gwyrdd Gogledd Ddwyrain Cymru: Cofnod 2018: Heb ei gyhoeddi
- Mapio cynefinoedd eang: Cyfoeth Naturiol Cymru
  https://envsys-ltd.maps.arcgis.com/apps/MapSeries/index.html?appid=f8741b82f4974486ae3ad0ddd8285692
- Adroddiad Dadgyfuno Targedau Cynefin Cymru CCGC 2007

Rhagor o wybodaeth

- Testun llawn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:
  www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted
- Gweler dogfennau canllaw yma:
  www.biodiversitywales.org.uk/cy/deddfwriaeth-a-chymorth/deddf-yr-amgylchedd-cymru/
- Testun llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
  www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted
- Dogfennau arweiniol:
  futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/
- Rhagor o wybodaeth ar ddyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:
  www.biodiversitywales.org.uk/Adran-6
- Rhagor o wybodaeth am Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016—Cynefinoedd a Rhywogaethau o bwysigrwydd sylweddol ar gyfer cadwraeth:
  www.biodiversitywales.org.uk/cy/deddfwriaeth-a-chymorth/adran-6/
- Mae'r Bartneriaeth Natur Ranbarthol (Bionet) ar y cyfryngau cymdeithasol:
  www.facebook.com/NEWBioNet/ a twitter.com/newbionet







